

Un Llais Cymru



One Voice Wales

Prosiect Argyfwng Costau Byw

GRANTIAU A CHYFLEOEDD

ARIANNU POSIBL

Grant Ymgysylltu Democratiaidd Llywodraeth Cymru

Nod y grant yw cefnogi awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector a sefydliadau nid-er-elw sy'n gweithio yng Nghymru i ddilyn dull arloesol o ymgysylltu â'r rhai sydd fel arfer wedi'u tangynrychioli yn ein democratiaeth

Mae'r ffenestr ymgeisio ar gyfer ceisiadau dros £1000 ar agor nawr ac yn cau ar 9 Mai 2025. Gellir cyflwyno ceisiadau am lai na £1000 ar unrhyw adeg. Mae rhagor o wybodaeth gan gynnwys dogfennaeth y grant ar gael [yma](#):

Chwaraeon Cymru wedi ail-agor

Mae Cronfa Cymru Actif yn gronfa grant y Loteri Genedlaethol sy'n cefnogi clybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol ar draws Cymru. Gallwch wneud cais am grantiau o £300 i £50,000 er mwyn cael mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Mae Cronfa Cymru Actif yn agored tan y 4ydd Mehefin 2025

- **Ebost:** beactive@sport.wales

WWF Cymru – Grantiau Cymunedol

Grantiau Cymunedol HYD AT £1,000, ar gyfer prosiectau sy'n dod â phobl a natur at ei gilydd.

Dyddiad olaf a chau'r gronfa fydd y
13eg Ebrill 2025 am 23:59

Diwrnod y Lluoedd Arfog
28 Mehefin 2025

Cyllido Digwyddiadau

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu grantiau hyd at £10,000 ar gyfer digwyddiadau i gefnogi Diwrnod y Lluoedd Arfog.

Mae cyfnod gwneud cais am grant ar gyfer 2025 YN AGORED yn awr. Er mwyn gwneud cais am y grant hwn, mae'n rhaid ichi'n gyntaf gofrestru eich digwyddiad ar wefan Diwrnod y Lluoedd Arfog.

Cyfleoedd Rhanbarthol

Cyngor Bro Morgannwg

Cronfa Grantiau Cymunedau Cryf

Mae'r Gronfa yn ceisio cryfhau gwytnwch mudiadau/grwpiau neu eu gweithgareddau trwy ariannu prosiectau sy'n ychwanegu gwerth at y gwaith maen nhw'n ei wneud yn barod, sy'n gallu dangos bod ganddynt gynaliadwyedd hirdymor ac er mwyn lleihau dibyniaeth ar arian grant yn y dyfodol. Mae'r gronfa yn derbyn ceisiadau hyd at ganolddydd ar y 30ain Ebrill 2025



Prosiect Argyfwng Costau Byw

GRANTIAU A CHYFLEOEDD ARIANNU POSIBL

Tesco - Stronger Starts

Trwy Stronger Starts, mae Tesco yn ariannu gweithgareddau bwyd iach a ffitrwydd i wella iechyd corfforol a llesiant meddyliol – o glybiau brecwast i offer lleoedd chwarae, dillad pêl droed i ddsbarthiadau garddio.

Eiriolwyr Cymunedol

Mae Eiriolydd Cymunedol yn un o'r cysylltiadau rhwng y siop a'r gymuned mae'n ei gwasanaethu. Maen nhw'n gydweithiwr siop sy'n meddwl y byd am eu cymuned a'r rôl y gall Tesco ei chwarae yn ei chefnogi.

Gyda'u gwybodaeth arbenigol o raglenni megis eu cynllun Casgliadau Bwyd a Grantiau Cymunedol, mae Eiriolwyr Cymunedol yn helpu mudiadau i ddeall sut i elwa ohonynt. Gallant helpu gyda llenwi ffurflenni gwneud cais am grantiau

Ymddiriedolaeth 1910 - Cynllun Grantiau Bychaine

Mae grantiau hyd at £5,000 ar gael i fudiadau yn Ne Cymru i wella ansawdd bywyd i bobl ifanc, grwpiau neu gymunedau

Cronfa Lesiannol y Fyddin

Mae Cronfa Lesiannol y Fyddin yn darparu grantiau i elusennau a mudiadau sy'n darparu cefnogaeth gydol oes i filwyr, cyn aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd agos pan maen nhw mewn angen. Pwrpas yr arian yw cefnogi elusennau a mudiadau gyda phrosiectau a gweithgareddau sydd o fudd uniongyrchol i gymuned y Fyddin

Cronfa Ail-gylchu Offer Trydanol

Mae Cronfa Ail-gylchu Offer Trydanol yn cefnogi mudiadau ail-gylchu, ail-ddefnyddio neu atgyweirio sy'n profi dulliau creadigol ac ymarferol o gasglu offer trydanol di-ddefnydd.

Mae arian ar gael ar gyfer dau fath o brosiect:

- Prosiectau i dyfu dulliau casglu presennol ar gyfer offer trydanol bach.
- Prosiectau i arloesi dulliau newydd o atgyweirio, ail-ddefnyddio a/neu ail-gylchu offer trydanol.

Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio arian yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol. Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

Sefydliad Cymunedol

Yng Nghymru

Cyllido Cymru